

Gwyntoedd croes

“Felly, gan ein bod yn derbyn teyrnas ddi–sigl, gadewch inni fod yn ddiolchgar...” (adn. 28)

Beth am ddarllen Hebreaid 12:14–29 ac yna myfyrio

Yn ddiweddar, wrth ymweld ag eglwys yr oeddwn i bregethu ynddi, arweiniodd un o’r blaenoriaid y gynulleidfa mewn gweddi oedd yn defnyddio geiriau tebyg i hyn: “Arglwydd, yr ydym yn meddwl y bore yma am dy Eglwys sydd dan erledigaeth. Bydd gyda y rhai sydd yn dioddef ar gyfrif eu ffydd gan eu hachub rhag dioddefaint corfforol.” Aeth ymlaen: “Diogela ninnau yr un modd rhag pob erledigaeth a gwrthwynebiad, prun ai yn erledigaeth gorfforol neu fel arall.” Dywedais ‘Amen’ i’r rhan fwyaf o’r weddi yna, ond ni allwn ddweud ‘Amen’ i’r darn olaf – dymuniad i gael ein hachub rhag pob ffurf ar wrthwynebiad. Petai hyn yn wir, mae’n siŵr y byddai pregeth angladdol yr Eglwys ar fin dilyn. Mae’n gywir i ddweud fod pobl sydd yn byw heb wrthwynebiad mewn perygl o orffwys gan fodloni ar hamer ymroad, a ffydd Gristnogol sydd ymhell o fod yn heintus.

Clywais unwaith am Gristion oedd wedi ei oddiweddyd yn llythrennol pan ddaeth i gysylltiad y tro cyntaf â Marcisiaeth yn Rwsia yn 1934. Wrth weld comiwnyddiaeth yn adeiladu byd newydd heb Dduw ac yn gwneud hynny gyda brwdfrydedd, fe synnodd yn ddirfawr. Fe glywodd bobl ifanc yn canu eu bod yn gwneud byd newydd wrth iddynt gludo pridd i agor twnnel. Yna, pan bu i un o arweinyddion y comiwnyddion i ddweud wrth Gristnogion: “Mae eich dydd wedi dod i ben... nawr mae wedi dod yn ddydd ar gomiwnyddiaeth”; fe fethodd ei ffydd. Ond oherwydd y gwrthwynebiad, dechreuodd chwilio yr Ysgrhythur yn fwy dyfal gan ddarganfod dau wirionedd a ddaeth yn sylfaen i’w neges o’r diwrnod hwnnw ymlaen. Mae’r gwirionedd cyntaf yn ein testun heddiw. Mae teyrnas Dduw yn ddi-sigl. Mae’r ail wirionedd i’w ddarganfod mewn adnod arall yn Hebreaid: “Iesu Grist, yr un ydyw ddoe, heddiw, ac yn dragywydd”. (Hebreaid 13:8) Fe barodd y gwrthwynebiad iddo ailddarganfod datguddiad Duw. Daeth adref o Rwsia yn ddyn gwell. Bellach, wrth gwrs, mae comiwnyddiaeth yn gorwedd yn llwch hanes. Crist yn unig sydd yn achub ac yn abl i greu byd a dynoliaeth newydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Samuel 17:1–58

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd effeithiau gwrthwynebiad ar:
 - i) Dafydd? ii) yr Israeliaid?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi nid yn gymaint i gael fy ysgwyd gan y gwrthwynebiad ond, yn hytrach, i gael fy annog gan wrthwynebiad i newid y byd. Dangos i mi bod pob gwynt croes sydd yn dod i’r rhan yn gyfle newydd. Ni all dim fy ngoddiweddyd i yn dy gwmi di. Diolch i ti, O Dad. Amen.